



**COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO
DYDD MAWRTH 18 GORFFENAF 2017 am 10.00am
ARCHIFAU SIR BENFRO, HWLFFORDD**

Yn bresennol:

Tegryn Jones	Prif Weithredwr, APCAP (Cadeirydd)
Sue Leonard	Prif Swyddog, PAVS (Is-gadeirydd)
Bernadine Rees	Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Ian Westley	Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro
Alec Don	Prif Weithredwr, Porthladd Aberdaugleddau
Sarah Jennings	Cyfarwyddwr Llywodraethu, Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Natalie Pearson	Pennaeth Ymgysylltu, Llywodraeth Cymru
Caroline James	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Cymunedol, Coleg Sir Benfro
Jessica Morgan	PLANED
Anna Bird	Pennaeth Datblygu Partneriaeth Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Ian Scale	Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Dr Steven Jones (SPJ)	Cyfarwyddwr Datblygu, Cyngor Sir Penfro
Dafydd Llywelyn	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, Dyfed Powys
Andrea Winterton	Rheolwr Gweithrediadau De-orllewin Sir Benfro, Morol a Monitro, Cyfoeth Naturiol Cymru
Rob Quin	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Ian Scale	Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Dai Swan	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Yr Uwch-arolygyddlan John Jonathan Feild	Heddlu Dyfed Powys (gadawodd am 11.10am) Rheolwr Cyflogwyr a Phartneriaeth, Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Y Cyng. David Simpson Rowland Rees-Evans	Arweinydd, Cyngor Sir Penfro Cadeirydd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Hefyd yn bresennol

Claire George	Cydlynnydd Cymorth Partneriaeth a Chraffu, CSP
Amy Richmond	Rheolwr Ymgysylltu, Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Rhys Burton	Rheolwr Rhaglen, Grŵp Cydweithredol (rhan o'r cyfarfod)
Kerry Donovan Angie Darlington	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (rhan o'r cyfarfod) Gweithredu dros Iechyd Meddwl Gorllewin Cymru (rhan o'r cyfarfod)

Cymorth/Ysgrifenyddiaeth

Nick Evans Rheolwr Cymorth Partneriaeth a Chraffu, Cyngor Sir Penfro
Lynne Richards Cydlynnydd Cymorth Partneriaeth a Chraffu, Cyngor Sir Penfro

Ymddiheuriadau

Sharron Lusher Pennaeth, Coleg Sir Benfro
Christine Harley Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am.

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd NP a DS i'w cyfarfod cyntaf. Gwnaed cyflwyniadau a derbyniwyd ymddiheuriadau gan y rhai a restrir uchod.

2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cronfa Gyfun y BGC – Nododd NE y byddai camau nesaf ynghylch cronfa gyfun yn gliriach ar ôl datblygu gweithgarwch Cynllun Llesiant o ran yr hyn y gellid defnyddio cronfa BGC ar ei gyfer. Byddem yn dod yn ôl at y pwnc eto yn ddiweddarach.

Rhoddodd SPJ drosolwg o wobrau Balchder yn Sir Benfro er budd NP, a nododd SL y derbyniwyd rhai ceisiadau. Rhagwelwyd y byddai'r prosiect yn ennill momentwm ar ôl dyfarnu'r wobr gyntaf a chyhoeddi erthygl yn y Western Telegraph. Awgrymodd NP gyflwyno'r 12 o enillwyr bob mis ar gyfer gwobr flynyddol Dewi Sant.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ddydd Mawrth 23 Mai 2017 yn gofnod cywir.

3. Cofnod Gweithredu

Dosbarthwyd y cylch gorchwyl diwygiedig a'r ddolen i adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ym mis Mai/Mehefin. Byddai SJ ac IJ yn trafod cynllunio digwyddiad staff rheng flaen arall, gan gynnwys ble fyddai'r lle gorau i drefnu digwyddiad yn y dyfodol.

4. Amcanion Llesiant a Chynllun Llesiant

Rhoddodd NE y wybodaeth ddiweddaraf am y broses o gynllunio Llesiant a gofynnodd i'r BGC gytuno ar ei Amcanion Llesiant a llunio'r broses o ddatblygu'r Cynllun Llesiant wrth symud ymlaen.

Ategodd NE y cyngor a roddwyd gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn flaenorol, ac mewn digwyddiad y bu'r tîm yn bresennol ynddo ar 17 Gorffennaf, fod gofyn i'r BGCau, wrth bennu eu blaenoriaethau, ganolbwyntio ar nifer fach o ardaloedd lle y gallant gael effaith sylweddol yn hytrach nag adlewyrchu gweithgarwch presennol a bod newid y ffordd y mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd, gan ystyried y 5 ffordd o weithio, yn hollbwysig.

Aeth AB a BR i sesiwn fore y digwyddiad i aelodau BGC ar 17 Gorffennaf. Gwnaethant dderbyn yr un neges o ran pwysigrwydd camau gweithredu yn hytrach na phrosesau, gwneud pethau'n wahanol a hefyd y dylid pennu nifer fach o amcanion.

Rhoddodd CG drosolwg o themâu sy'n dod i'r amlwg o weithgarwch ymgysylltu cynnar. Nododd NE fod gofyn i aelodau BGC gytuno ar yr Amcanion Llesiant a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf a hefyd gytuno ar ddull o ddatblygu'r Cynllun Llesiant.

Cafwyd trafodaeth hir ynghylch y themâu sy'n dod i'r amlwg gydag ychydig o bryder na soniwyd am feysydd penodol. Atgoffodd NE y partneriaid y byddai gweithgarwch ymgysylltu ychwanegol yn cael ei gynnal ar ôl i'r Amcanion Llesiant gael eu cymeradwyo a bod rhagor o waith i'w wneud er mwyn llunio rhestr o flaenoriaethau o lefel uchel o'r Aseiad Llesiant ei hun hefyd. Yna, trafododd y partneriaid yr Amcanion Llesiant, a chytunwyd arnynt yn amodol ar y newidiadau canlynol;

- Dileu'r ail baragraffau o dan y penawdau 'Lle Rydym yn Byw' a 'Pwy Ydym Ni'
- Dileu '...ehangu gwasanaethau craidd...' o dan yr egwyddor gweithio 'Newid'.

Yna, aeth aelodau BGC ymlaen i drafod y broses ar gyfer parhau â datblygiad y Cynllun Llesiant. Nododd CG y byddai â gweithgarwch ymgysylltu yn cael ei gyflawni dros yr haf ac mai'r gobaith gallai'r BGC fod yn bresennol yn y digwyddiadau hyn er mwyn ymgymryd â'r gwaith o ymgysylltu ar Flaenoriaethau Llesiant. Cytunwyd y dylid trefnu gweithdy gydag aelodau BGC tua diwedd yr haf er mwyn profi a chwestiynu canlyniad unrhyw weithgarwch ymgysylltu ond, yn y cyfamser, y byddai'r tîm BGC, gyda chymorth Polly Sills-Jones, yn ymgymryd â gwaith pellach ar flaenoriaethau lefel uchel cyn dechrau ar unrhyw weithgarwch ymgysylltu yn ogystal â dilyn ei chymorth ar ffordd ymlaen a'r broses ar gyfer datblygu'r Cynllun Llesiant. Byddai rhagor o wybodaeth a dyddiad ar gyfer y gweithdy yn cael eu dosbarthu i bartneriaid ar ôl cynnal y trafodaethau hyn. Gofynnodd TJ hefyd i'r partneriaid gysylltu â'r tîm BGC i weld a allant gynnig cymorth i'r ysgrifenyddiaeth wrth ddatblygu gwaith ar y Cynllun Llesiant a gweithgarwch ymgysylltu cysylltiedig.

Awgrymodd BR y dylid cynnal cyfarfod o Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion BGC y rhanbarth a swyddogion cymorth ar ôl datblygu Cynlluniau Llesiant i gysoni ag unrhyw flaenoriaethau perthnasol ledled yr ardal. Cytunwyd ar hyn a chaiff ei ailystyried ar ôl cyhoeddi'r Cynllun.

Rheolwyr
BGC
Rhanbarthol
i drafod a
threfnu hyn
fel y bo'n
briodol

5. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: Rhaglen Drawsnewid

Rhoddodd SJ drosolwg o'r rhaglen i drawsnewid Gwasanaethau Clinigol a thynnodd sylw at broblemau daearyddol, recriwtio a chyllid yn ardal Hywel Dda. Rhoddodd grynoded hefyd o'r problemau y mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn eu hwynebu a'r angen i wneud newidiadau i'r gwasanaeth er mwyn diwallu anghenion sy'n newid a rheoli adnoddau. Roedd ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar y pryd ar newidiadau posibl i'r ddau wasanaeth a gofynnodd SJ i bartneriaid BGC helpu Hywel Dda drwy gwblhau holiaduron yr ymgynghoriad nid yn unig fel unigolion ond hefyd fel sefydliadau a chyfleu'r cais hwn i'w timau. Yna, amlinellodd y broses ar gyfer ymgynghori yn y dyfodol a nododd y byddai digwyddiad i randdeiliaid yn cael ei gynnal ar gyfer yr ymgynghoriad ar Wasanaethau Clinigol ar 5 Medi a fyddai'n cael ei ddefnyddio i ddatblygu modelau i ymgynghori arnynt yn hwyrach yn 2018.

Yna, rhoddodd Kerry Donovan ac Angie Darlington drosolwg o sut y cafodd y modelau ar gyfer yr ymgynghoriad ar Wasanaethau Iechyd Meddwl eu datblygu a'u cydgynhyrchu, gan gynnwys y strwythur llywodraethu a'r dulliau ymgysylltu a ddefnyddiwyd. Gwnaethant nodi fod canfyddiadau'r gwaith modelu yn cael eu rhannu ledled Cymru ac yn rhyngwladol a'u bod hefyd wedi ystyried modelau mewn ardaloedd megis Y Ffindir a Trieste yn yr Eidal. O ganlyniad i hyn, cafodd y gwaith a wnaed gan y tîm ei enwebu ar gyfer Gwobr GIG Cymru.

6. Grŵp Gorchwyl a Gorffen Eiddo

Rhoddodd CG y newyddion diweddaraf yn gryno ar gynnydd prosiect cyd-leoli cydweithredol Abergwaun ac Wdig. Nododd nad oedd y galw yn hysbys ar hyn o bryd o ran p'un a oedd partneriaid am gymryd rhan. Gofynnodd i'r rheini a oedd â diddordeb mewn cymryd rhan nodi eu hangen sefydliadol yn yr ardal ac anfon unrhyw wybodaeth berthnasol ati erbyn dechrau mis Medi i'w chynnwys mewn ymarfer cwmpasu.

7. Y newyddion diweddaraf am Adolygiad Cymunedau yn Gyntaf

Rhoddodd Rhys Burton drosolwg byr o'r adroddiad a ddisbarthwyd i aelodau BGC. Nododd mai'r arweiniad ar lafar gan Llywodraeth Cymru hyd yma oedd mai'r Awdurdodau Lleol fyddai cyrff darparu'r gronfa etifeddol. Nododd SL fod y cyllid hwn yn adnodd posibl ar gyfer blaenoriaethau BGC yn y dyfodol. Codwyd ymholiad ynglŷn â chysylltiadau rhwng y BGC a'r gwaith yr ymgymerir ag ef gan y grŵp adolygu a nodwyd nod LR yn aelod o'r grŵp adolygu. Byddai diweddiadau pellach yn dod i law fel y bo'n briodol.

8. Hysbysiad Gweithredu – Sgiliau Hanfodol

Esboniodd NE fod Hysbysiad Gweithredu yn ymwneud â sgiliau hanfodol wedi'i atgyfeirio at y BGC gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaethau'r Cyngor i'w drafod ymhellach, ac i ystyried a oedd cyfle i ddatblygu hwn fel rhan o ddull cydweithredol ehangach. Ymatebodd BR i'r Hysbysiad Gweithredu a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Paul Miller drwy ddiolch iddo am ei gymorth a nododd efallai y byddai'n ddefnyddiol ailystyried yr Hysbysiad Gweithredu ar ôl datblygu model gwasanaeth ar gyfer gofal clinigol a pan fydd mandad cliriach o ran yr heriau recriwtio posibl ar ôl i'r model hwn gael ei ddatblygu. Nododd IW nad oedd yn gwrthwynebu'r egwyddor ond bod rhai problemau o ran ymarferoldeb wrth ddatblygu rhai awgrymiadau. Cytunodd hefyd fod yr Hysbysiad Gweithredu yn rhywbeth y dylai'r BGC ei ailystyried yn y dyfodol.

Yna, trafododd y partneriaid y Rhaglen Cymru Gyfan ar gyfer Graddedigion Gwasanaeth Cyhoeddus a nododd sawl aelod o'r BGC fod ei sefydliad wedi mynegi diddordeb yn y rhaglen. Awgrymwyd y gallai fod cwmpas i gyflwyno mynegiant o ddiddordeb ar ran y BGC er mwyn i unigolyn ystyried gysoni gwaith sefydliadau aelodau penodol o'r BGC. Byddai NE yn cysylltu â Llywodraeth Cymru er mwyn ei hysbysu am y drafodaeth a bod yna ddiddordeb gan y BGC o ran mynd i'r afael â hyn mewn modd cydweithredol.

NE

9. Hysbysiad Gweithredu – Diffibrilwyr

Esboniodd NE fod Hysbysiad Gweithredu yn ymwneud ag ymgyrch gyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o ddiffibrilwyr a gyflwynwyd gan y Cynghorydd David Bryan wedi'i drafod

yn ddiweddar gan Gabinet y Cyngor a oedd, o ganlyniad, wedi argymhell atgyfeirio'r hysbysiad at y BGC i'w ystyried ymhellach.

Nododd RQ fod rhaglen a gynhaliwyd yn Seattle, Washington, wedi cynyddu'r tebygolrwydd y byddai'r rheini sy'n cael trawiad ar y galon y tu allan i'r ysbyty yn goroesi i 65%, ac mai 3% yw'r ffigur yng Nghymru ar hyn o bryd. Cytunwyd y gallai'r BGC ddatblygu rhaglen er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a dywedodd RQ y gallai hyn hefyd gynnwys hyfforddiant o bosibl. Cytunodd i ymchwilio i'r opsiwn hwn ymhellach a byddai'n llunio adroddiad ar gyfer y cyfarfod BGC nesaf ar y ffordd y gellid datblygu hyn.

RQ

10. Unrhyw Fusnes Arall

Gofynnodd SL i bartneriaid BGC ystyried cyfatebol aelod o Gyngor Cymuned i eistedd ar y BGC a gofynnodd SPJ i'r partneriaid ystyried p'un a oedd digon o gynrychiolaeth gan y sector preifat ar y Bwrdd. Cytunwyd y byddai aelodaeth o'r BGC yn cael ei hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau cynrychiolaeth briodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.25pm.